
# Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2018 *mewn 5 munud*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Crynodeb ar ffurf graffiau
o adroddiad **Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2018**

Mae’r adroddiad llawn
ar gael yn llyw.cymru

regen
transforming energy

# Cyflwyniad

Mae adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2018 yn nodi capasiti cynhyrchu ynni cyfredol Cymru, ac yn dadansoddi sut mae wedi newid dros amser.

## Mae'r ddogfen ategol hon yn crynhoi'r canlynol:

- Y cynnydd tuag at dargedau ynni adnewyddadwy
- Cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru
- Cynnydd ardaloedd awdurdodau lleol
- Storïau am berchnogaeth leol


*Bydd lleihau ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil a pharhau i ddatblygu a chefnogi ynni adnewyddadwy, o dan berchnogaeth leol, yn ein helpu ni i gyflawni ein gweledigaeth carbon isel a sicrhau'r gwerth mwyaf posib i Gymru.*

**Lesley Griffiths**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

## Y tueddiadau o ran defnydd o drydan a chynhyrchu trydan yng Nghymru

Ers 2006, mae lefel y trydan sy'n cael ei gynhyrchu wedi gostwng 15%. Does dim trydan yn cael ei gynhyrchu o gwbl bron gan ffynonellau niwclear a glo, ac mae mwy o drydan yn cael ei gynhyrchu gan ffynonellau ynni adnewyddadwy a nwyon naturiol.




# Cynnydd tuag at y targed

Roedd ffynonellau ynni adnewyddadwy wedi cynhyrchu digon o drydan i ddiwallu hanner anghenion Cymru yn 2018.


## Targed trydan adnewyddadwy

**Targed:**
Erbyn 2030, bod ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn cynhyrchu lefel o drydan sy'n hafal i 70% o ddefnydd Cymru.




**Cynnydd:**
Yn 2018, roedd lefel y trydan a gafodd ei gynhyrchu gan ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn hafal i 50% o'r trydan a ddefnyddiwyd yng Nghymru.

## Tueddiadau o ran cynhyrchu a defnydd




Canran targed o ddefnydd trydan o ynni adnewyddadwy

**70%**

Canran o ddefnydd trydan o ynni adnewyddadwy

**50% in 2018**

Defnydd o drydan

**14.8 TWh in 2018**


Cynhyrchu trydan adnewyddadwy

**7.4 TWh in 2018**


# Cynhyrchu trydan yng Nghymru

Mae Cymru yn allforiwr net o drydan, gan ei bod yn cynhyrchu dwywaith cymaint o drydan ag y mae'n ei ddefnyddio.

## Y gymysgedd o ffynonellau cynhyrchu trydan yng Nghymru




## Cynhyrchu trydan dros amser




# Ynni adnewyddadwy

Ynni'r gwynt oedd yn gyfrifol am dros hanner yr holl ynni adnewyddadwy a gafodd ei gynhyrchu yn 2018.

## Y gymysgedd o ffynonellau cynhyrchu ynni adnewyddadwy

**Gwres adnewyddadwy: 2.3 TWh**
**23% o'r holl ynni adnewyddadwy**





**Trydan adnewyddadwy: 7.4 TWh**
**77% o'r holl ynni adnewyddadwy**

# Targed perchnogaeth leol

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed, sef bod 1 GW (1,000 MW) o gapasiti ynni adnewyddadwy o dan berchnogaeth leol erbyn 2030.


## Y cynnydd tuag at y targed hyd yma




64,637
o brosiectau

Cynhyrchwyd
1,812 MWh


## Perchnogaeth leol yn ôl capasiti (MW)




# Cynnydd ardaloedd awdurdodau lleol

Mae dros 68,700 o brosiectau trydan a gwres adnewyddadwy wedi'u gosod ar hyd a lled Cymru.

## Cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ôl ardal awdurdod lleol



# Storïau lleol



**Fferm wynt Brenig**
Cafodd y fferm wynt 38 MW yma, sy'n cynnwys 16 tyrbin, ei chwblhau yn 2018. Mae gan y fferm gronfa o £4 miliwn ar gyfer y gymuned wledig leol.

**Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa**
Disgwylir y bydd y fferm wynt 55 MW yma yn darparu cronfa budd i'r gymuned sydd werth hyd at £11 miliwn dros 25 mlynedd.

**Gwres carbon isel**
Y pwmp gwres dŵr 173 kW yma oedd y pwmp gwres mwyaf i gael ei osod yng Nghymru yn 2018.

**'Battery @ PYC'**
Dyma'r batri mwyaf yn y Deyrnas Unedig – 22 MW – i gael ei gyd-leoli gyda fferm wynt ar y tir.

**Fferm Rhiwfelin fach**
Mae'r tyrbin yma'n cyflenwi 10% o anghenion trydan y Bathdy Brenhinol, ac mae wedi cael ei beintio i edrych fel cennin Pedr enfawr.

**Cynllun ynni dŵr Cored Radur**
Mae'r cynllun yma'n defnyddio cerrynt Afon Taf i roi pŵer i dros 500 o gartrefi y flwyddyn, ac mae'n eiddo i Gyngor Caerdydd.

Mae adroddiad llawn Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2018 ar gael yn llyw.cymru

ISBN: 978-1-83933-195-4